**ARHOLIADAU'R**
**YSGOLORIAETHAU MYNEDIAD**
**IONAWR 2017**

# CYMRAEG – IAITH FODERN

**Amser – 1.5 awr**

**Atebwch bob cwestiwn**

---

A. 1-12. Rhowch y ffurf ferfol gryno ar unrhyw ddeg o'r rhain. Sywlch fod yr amser yn amrywio. (10%)

e.e. Mae e'n rhedeg > **rhed** *neu* **rheda**
Roeddent hwy'n ateb > **atebent hwy** *neu* **ateben nhw**

1. Mae e'n gwybod ____________________________
2. 'Rwyt ti'n gweld ____________________________
3. Byddant hwy'n gobeithio ____________________________
4. 'Roeddem ni'n mynd ____________________________
5. Nid yw e'n cofio ____________________________
6. Gwnaeth hi ddylunio ____________________________
7. 'Rydych chi'n gwneud ____________________________
8. Byddaf i'n dod ____________________________
9. 'Gwnaethom ni gael ____________________________
10. 'Rydym ni'n darllen ____________________________

B. Cylchwch y ffurf **gywir**, i ddangos eich bod yn gwybod ble y dylid treiglo. (10%)

1. Mae tri **g**i/**ch**i gan fy **g**ymydog/**ngh**ymydog ac maen' nhw'n **c**yfarth/**g**yfarth **p**ob/**b**ob nos.
2. Ar ôl iddo **d**arllen/**dd**arllen y **ll**yfr/**l**yfr rhoddodd ef **c**opi/**g**opi i'w **m**erch/**f**erch.
3. Gofynnodd **p**awb/**b**awb i'r **d**arlithydd/**dd**arlithydd am **g**waith/**w**aith cartref.
4. Yr oedd un **c**adair/**g**adair ar **c**ael/**g**ael yn yr ystafell **g**wag/**w**ag.

5. Mae'r **c**westiynau/**g**westiynau hyn yn anodd. A **f**ydd/**b**ydd y **m**yfyrwyr/**f**yfyrwyr yn gallu eu **a**teb/**h**ateb?

6. Gwelais **c**ar/**g**ar **c**och/**g**och pan **c**erddwn/**g**erddwn i'r ysgol.

7. Ni **p**eintiodd/**ph**eintiodd Rhodri'r **t**ŷ/**d**ŷ ar ei **ph**en/**b**en ei hun.

8. Hoffem ni **m**ynd/**f**ynd i **g**wlad/**w**lad arall ar ein **g**wyliau/**w**yliau.

9. Yr oedd torf o **p**obl/**b**obl **yn G**aerdydd/**yng Ngh**aerdydd **d**ydd/**dd**ydd Sadwrn.

10. Bydd dwy **g**wers/**w**ers **C**ymraeg/**G**ymraeg newydd ar gael ar ôl y Nadolig.

CH. (i) Addaswch y brawddegau canlynol, fel y bydd yr ail frawddeg yn dod yn gymal enwol.

e.e. Dywedais i. Mae cyfle gan bawb.
> **Dywedais i fod cyfle gan bawb.**

’Rwyt ti’n credu. Bu hi farw llynedd.
**> ’Rwyt ti’n credu iddi farw llynedd.**

’Rydych yn gweld. Byddai’n well peidio ag agor canolfan arall.
> **’Rydych yn gweld y byddai’n well peidio ag agor canolfan arall.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Clywais | ’Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr. |
| 2. | Dywedodd ef | Mae e’n hoffi darllen nofelau. |
| 3. | Mae hi'n gobeithio | ’Rwyt ti wedi gweld y newyddion heno. |
| 4. | Yr oeddem yn credu | Buasem ni’n gallu gwneud y dasg. |
| 5. | ’Rwyf i'n meddwl | Aeth y merched i siopa. |
| 6. | Credaf | Mae’n rhaid imi ddysgu’r rheolau. |
| 7. | 'Rwyt ti'n gwybod | Bydd yr ysgol newydd yn agor cyn bo hir. |
| 8. | Sylweddolais | Nid oedd y drws ar gau. |
| 9. | ’Rwyf i'n deall | ’Roedd y cwestiwn yn anodd. |
| 10. | ’Rydych chi'n honni | Anfonodd hi lythyr at ei chariad. |

*trosodd...*

D. Cyfieithwch y paragraff hwn i'r Gymraeg. (25%)

Suddenly the children heard a soft noise from the other end of the room. They turned quick as lightning to see what it was. One of the figures was rising from its chair. When she stood up they realized that she was extremely tall. And you could see at once from her crown, from the flash of her eyes and the smile on her lips, that she was a great queen. She looked round the room and saw the children, but you could not guess what she thought of them or whether she was surprised. She came forward taking long, swift steps. 'Who has woken me?' she asked. 'I did,' said the boy. 'You!' said the Queen, placing her white, beautiful hand on his shoulder. 'But you are only a child. How did you enter this place?' 'We've come from another world,' answered the girl.

DD. Ysgrifennwch draethawd byr ar **un** o'r testunau hyn. (Awgrymir eich bod yn ysgrifennu tua 300 o eiriau. Dylid cofio mai cywirdeb ac iaith dda sydd bwysicaf, ac nid faint yr ydych yn ei ysgrifennu.) (25%)

1. Yr amgylchedd
2. Cadw'n heini
3. Fy hoff ffilm
4. Peryglon cyffuriau
5. Hawliau anifeiliaid
6. Yr Undeb Ewropeaidd